**Y Pwyllgor Diwylliant CC-13-02(min)**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Iau 27 Mehefin 2002 |
| **Amser:** | 2.00pm-4.00pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Y Cynulliad Cenedlaethol |

**Presennol:**

Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, Cadeirydd)

Jenny Randerson (Democrat Rhyddfrydol, Canol Caerdydd, Gweinidog y Cynulliad)

Owen John Thomas (Plaid Cymru, Canol De Cymru)

Lorraine Barrett (Llafur, De Caerdydd a Phenarth)

Dafydd Wigley (Plaid Cymru, Caernarfon)

Glyn Davies (Ceidwadwr, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Delyth Evans (Llafur, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Alison Halford (Llafur, Delyn)

Christine Gwyther (Llafur, Gorllewin a De Caerfyrddin)

**Ymddiheuriadau**: Rosemary Butler (Llafur, Gorllewin Casnewydd)

**Swyddogion**

Julia Annand (Clerc y Pwyllgor)

Margaret Evans (Is-adran y Celfyddydau, y Loteri a Chwaraeon)

Prys Davies (Is-adran Diwylliant a'r Gymraeg)

O Gwyn Griffiths (Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol)

**Hefyd yn bresennol:**

Euryn Ogwen Williams (Ymgynghorydd Arbenigol y Pwyllgor)

**Datganiadau o fuddiant:**

- Lorraine Barrett – Ei g•r â grant i'w benderfynu gan Gyngor Celfyddydau Cymru.
- Rhodri Glyn Thomas – aelod o fwrdd cysgodol cais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop 2008.

- Dafydd Wigley - ei wraig yn aelod amlwg o gymuned y celfyddydau yng Nghymru; roedd wedi derbyn grant gan Gyngor Llyfrau Cymru ac roedd ganddo gysylltiadau ffurfiol â Hijinx Theatre.
- Mae g•r Delyth Evans yn gweithio â Chyfathrebu a'r Cyfryngau.

**<u>Eitem 1: Adolygiad o'r Gymraeg – Papur: CC-12-02(p.1)</u>**

Dywedodd y Cadeirydd ei fod ef a Gareth Jones wedi trafod pa ffordd fyddai orau i gyflwyno adroddiadau'r ddau Bwyllgor yn drefnus. Roeddent yn cynnig y dylid cynnwys y ddau adroddiad fel Rhan 1 a Rhan 2 yn yr adroddiad terfynol. Cytunai'r Pwyllgor.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau ac eraill a oedd wedi cyfrannu at y drafftio. Roedd yn cynnig un newid yn y cyflwyniad. Gan fod llawer o'r argymhellion yn dod i ran Gweinidogion ar wahân i'r Gweinidog Diwylliant, teimlai'r Cadeirydd y byddai'n amhriodol i'r Pwyllgor hwn osod eu blaenoriaethau. Cynigiai felly y dylid rhoi'r holl argymhellion gyda'i gilydd mewn un adran ar ddechrau'r adroddiad, gan briodoli pob un i'r Gweinidog perthnasol. Cytunai'r Pwyllgor.

Cytunodd y Pwyllgor hefyd ar yr adran a gyflwynwyd ar Addysg a Dysgu Gydol Oes. Roedd hon yn nodi chwe argymhelliad allweddol y Pwyllgor ADGO ynghyd â thri argymhelliad gan y Pwyllgor Diwylliant y cytunwyd arnynt yn flaenorol, ynghylch darpariaeth yn y blynyddoedd cynnar.

Cytunwyd hefyd ar y newidiadau hyn yn y drafftio:

- Dylid defnyddio'r ymadrodd 'Llywodraeth Cynulliad Cymru' drwy'r adroddiad.

- Dylid rhoi 'Welsh speaking' cyn 'heartlands'.

- Aralleirio’r argymhellion ynghylch darparu gwasanaethau i bobl sâl, i’r henoed ac i blant bach; ac ynghylch y seilwaith cludiant.

Daeth y Cadeirydd â’r eitem hon i ben trwy ddiolch i’r Pwyllgor am eu gwaith yn ystod y flwyddyn a aethai heibio ar yr adolygiad. Dywedodd fod yr adroddiad yn ddogfen arwyddocaol a hanesyddol, yn arbennig gan iddo gael ei gynhyrchu o fewn tair blynedd i sefydlu’r Cynulliad Cenedlaethol. Byddai’n awr yn cael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 9 Gorffennaf.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog - Papur CC 13-02 (p2)**

Wrth gyflwyno ei hadroddiad, dywedodd y Gweinidog i lawnsiad terfynol Cymru Greadigol gael ei gynnal y diwrnod blaenorol. Bellach roedd y strategaeth wedi ei lawnsio ledled Cymru a chynhaliwyd pob lawnsiad mewn cymunedau. Pwysleisiodd y Gweinidog pa mor bwysig y teimlai oedd cwrdd â chynifer o bobl a weithiai yn y celfyddydau yn ystod y digwyddiadau hyn.

Codwyd y materion eraill canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Roedd y Gweinidog wedi holi ynghylch cwynion nad oedd dramâu arobryn Eisteddfod yr Urdd yn cael eu perfformio. Cadarnhaodd adroddiad y Cadeirydd y byddai’r BBC mewn gwirionedd yn darlledu’r dramâu arobryn. Serch hynny, byddai’r Gweinidog yn gofyn i Dasglu’r Celfyddydau a Phobl Ifanc ystyried y mater.

- Wrth ymateb i gwestiwn ynghylch darparu arweiniad ar safonau ar gyfer adeiladau newydd y celfyddydau, dywedodd y Gweinidog y byddai’n trafod y mater hwn â Chyngor Celfyddydau Cymru. Gyda rhaglen adeiladu o £130 miliwn yn y celfyddydau (a oedd yn cynyddu) dywedodd ei bod yn bwysig cael hyn yn iawn.

- Roedd peth pryder nad oedd Arglwydd Faer Caerdydd wedi mynychu Eisteddfod yr Urdd. Dywedodd y Cadeirydd fod cyfraniad y Cyngor, serch hynny, yn sylweddol; credai ei fod yn £320 000. Tanlinellodd y Gweinidog hefyd ymrwymiad gweladwy’r Cynulliad i’r Urdd. Roedd y rhan fwyaf o aelodau Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi mynychu, ynghyd â llawer o Aelodau’r Cynulliad.

**Eitem 3: Y Mesur Cyfathrebu - Papur 13-02 (p3)**

Wrth agor yr Eitem hon, dywedodd y Cadeirydd ei fod yn credu bod yr ymateb arfaethedig yn cwmpasu’r holl faterion a godwyd yn ystod trafodaeth flaenorol y Pwyllgor ar 29 Mai.

Wrth gyflwyno’r ymateb drafft, dywedodd y Gweinidog ei fod wedi ei seilio ar dystiolaeth a gyflwynwyd i’r Pwyllgor ynghyd â thrafodaethau yr oedd hi wedi eu cael â darlledwyr a rheolyddion. Roedd yn bwysig peidio â thanbrisio’r newid aruthrol a ddeuai yn sgil y Mesur a fyddai, yn ôl y Gweinidog, yn arwain at drefn lawer mwy trefnus.

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

- Cytunwyd i dynhau paragraff 3.2 ynghylch cael ateb ar wahân yng Nghymru i'r prawf i fesur a oedd y gwasanaeth ar gael, yn cael ei ddefnyddio, ac yn fforddiadwy.

- Byddai'r gweinidog yn anfon copi o'r fersiwn terfynol o'r ymateb i holl AS Cymru.

- Er bod amheuaeth ynghylch gallu'r Cynulliad i ddylanwadu ar unrhyw benderfyniad yngl•n â nifer Rheolwyr Gyfarwyddwyr HTV (para 2.3), dywedodd y Gweinidog fod yr ITC hefyd yn anhapus mai dim ond un Rheolwr Gyfarwyddwr oedd ar gyfer Cymru a De-orllewin Lloegr gyda'i gilydd.

- Roedd y Gweinidog yn cydymdeimlo â'r awydd i roi cymorth, o bosibl, i bobl pan fyddai'r gwasanaeth analog yn cael ei ddiffodd, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig. Gallai pobl yng Nghymru yn rhwydd fod dan fwy o anfantais bryd hynny.

- Byddai'r Gweinidog yn cryfhau'r adran ar y sbectrwm radio gan fod diogelwch gwasanaethau bywyd a llawer o fuddiannau busnes, diwylliannol, cymdeithasol a gwyddonol eraill yn dibynnu ar sicrhau ei fod yn weddol rydd rhag ymyrraeth.

- Roedd cefnogaeth i'r cynnig i gael Cyngor Cyfathrebu i Gymru; bu'r Cyd-bwyllgor yn gefnogol iawn i'r syniad.

- Cytunwyd i roi 'essential' yn lle 'desirable' ym mrawddeg olaf para 1.6.

**<u>Eitem 4: Adolygiad Pum Mlynedd Llyfrgell Genedlaethol Cymru - Papur CC 13-02 (p4)</u>**

Cyflwynwyr: Richard Clarke, Cynllunio Ariannol

Robin Moulson, GCH Consultants

Graham Hasting-Evans

Lyn Morgan

Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd Richard Moulson fod y Llyfrgell wedi croesawu newid yn frwd. Roeddent wedi cyflawni'r holl amcanion mesuradwy a osodwyd gan y Gweinidog ac ar y ffordd i gyflawni'r rhai anfesuradwy. Roedd y Llyfrgell yn gwneud yn well na'r safon o ran perfformiad ym maes llywodraethu.

Tanlinellodd Richard Moulson pa mor agored a chymwynasgar fu'r Llyfrgellydd, Andrew Green.

Ategodd yr Aelodau hynny gan gymeradwyo’r adroddiad am fod yn eglur ac adeiladol.

Dywedodd Richard Moulson fod tair prif thema yn dod i’r amlwg o’r argymhellion

- Y gellid gwneud gwell defnydd o’r broses gynllunio, gan osgoi unrhyw bosibilrwydd i strategaethau a ddeuai o wahanol rannau o’r Llyfrgell fethu â gweithredu.
- Yr angen i fannau yn y Llyfrgell sydd dan bwysau (crybwyllir yr Adran Gyfrifiaduron yn benodol) gael eu rheoli’n fanwl
- Sicrhau cydweithrediad proffesiynol yn y modd mwyaf defnyddiol ac effeithiol.

Gwnaed y pwyntiau canlynol wrth drafod:

- Wrth ymateb i gwestiwn am gyllid arbennig ar gyfer cyfnod sefydlu siaradwyr Cymraeg, dywedodd yr ymgynghorwyr fod argymhelliad 49 yn benodol i’r Llyfrgell. Y mater dan sylw oedd y gallai darpar ymgeiswyr fod â mwy o ddiddordeb pe byddid yn tynnu mwy o sylw at y cymorth ar gyfer hyfforddiant yn y Gymraeg.

- Ynghylch argymhelliad 13, dywedodd yr ymgynghorwyr fod angen i’r Llyfrgell roi sylw i ba eitemau y gallai gael gwared arnynt, yn ogystal â pha rai yr hoffai eu sicrhau.

- Roedd argymhelliad 16 yn berthnasol i bob eitem yn y casgliad; nid edrychwyd ar y meini prawf cadwraeth ers cryn amser.

- Roedd catalogio yn ystyriaeth i’r Llyfrgell yn achos yr archif lawysgrifen. Roedd angen iddynt weld beth y gellid ei wneud fel nad oedd papurau’n cyrraedd yn anhrefnus.

- Eglurwyd bod mater y cyllid preifat a oedd wrth wraidd argymhelliad 34 yn berthnasol i bob Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad.

- Nid oedd agenda cudd y tu ôl i argymhelliad 37. Roedd penodi pobl o’r tu allan yn duedd a oedd ar gynnydd.

Diolchodd y Cadeirydd i’r ymgynghorwyr, gan nodi bod eu hadroddiad yn tanlinellu’r hyn a gyflawnwyd gan y Llyfrgell.

**Eitem 5: Cofnodion y cyfarfod diwethaf - Papur CC 12-02 (min)**

Gan fod y cofnodion wedi eu dosbarthu’n eithriadol o hwyr (roedd yr Ysgrifenyddiaeth yn canolbwyntio ar yr adroddiad ar yr adolygiad o’r Gymraeg) awgrymodd y Cadeirydd y dylid eu bwrw ymlaen i’r cyfarfod nesaf.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Gorffennaf 2002**